Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Bechan Bach

**Ysgol Rhiw Bechan**
**Tregynon**
**Powys**
**SY16 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Bechan Bach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Bechan Bach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Cyngor Sir Powys |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Allyson Whitticase |
| Person â chyfrifoldeb | Carol Timms a Terri Owen |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 3-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 15 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 15 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | 08:45 – 15:15 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor yn unig |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mai 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Medi 2015 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 21/11/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn trefnu sesiynau grŵp yn ddigon da i ennyn diddordeb y plant drwy gydol y gweithgaredd

A2 Cryfhau profiadau'r plant o'r byd ehangach drwy drefniadau partneriaeth yn y gymuned leol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn cael llawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau pwrpasol am yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, maent yn dewis p'un a ydynt am chwarae dan do neu yn yr awyr agored, gan symud yn hyderus rhwng y ddau amgylchedd. Mae llawer o'r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion, er enghraifft wrth ofyn i ymarferydd a allant fod yn chwaer fawr neu'n gi yn ystod y gweithgaredd chwarae dychmygol. Maent yn defnyddio'r amrywiaeth helaeth o weithgareddau ac adnoddau diddorol i ddatblygu eu chwarae a'u syniadau eu hunain. Maent yn mwynhau dewis a thorri adnoddau fel perlysiau a ffrwythau i'w rhoi yn yr hylifau y maen nhw'n eu cymysgu.

Mae'r plant yn setlo'n dda. Mae bron pob un ohonynt yn cyrraedd yn barod i ddechrau eu diwrnod ac yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni a'u gofalwyr. Caiff rhai ohonynt nad ydynt mor barod i wneud hynny eu cefnogi mewn ffordd sensitif gan ymarferwyr, gan symud yn gyflym i chwarae'n hapus. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cynnes ac agos â'r ymarferwyr ac â'i gilydd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant. Maent yn dysgu sut i fynegi eu teimladau, ac mae llawer ohonynt yn awyddus i ddefnyddio’r bwrdd teimladau i ddweud wrth eraill eu bod yn hapus.

Mae'r plant yn rheoli eu hymddygiad yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd ac yn dysgu sut i ddeall anghenion eraill. Er enghraifft, maent yn pasio adnoddau i'w gilydd wrth wneud cacennau toes neu'n dal y pot paent i rywun arall roi ei frwsh ynddo. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd, ac yn fwy na pharod i ddod ar gyfer amser grŵp neu fyrbryd. Maent yn dysgu i fod yn barchus ac i dacluso pethau'n ofalus pan ofynnir iddynt wneud hynny. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a chymuned.

Mae pob un o'r plant yn mynd ati i archwilio eu hamgylchedd. Maent yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau ac yn mynegi mwynhad, er enghraifft gan chwerthin yn uchel wrth i'r bys sy'n symud ddewis y plentyn nesaf. Mae'r plant yn dysgu i ganolbwyntio ac i ddyfalbarhau, ac mae llawer ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a ddewiswyd ganddynt, er enghraifft paentio neu wneud lluniau mosäig. Mae cyfnodau grŵp gwerthfawr dan arweiniad oedolion hefyd o fudd i'r plant, er enghraifft amser cofrestru ac amser stori. Mae bron pob plentyn yn dangos brwdfrydedd wrth gymryd rhan yn y cyfnodau hyn.

Mae'r plant yn datblygu ac yn dysgu'n dda iawn drwy'r cyfleoedd eang a ddarperir iddynt. Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth, sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, gall y rhan fwyaf o'r plant wisgo eu cotiau eu hunain, rheoli eu hanghenion personol eu hunain, a nôl eu byrbryd o'u bag.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae bron pob un ohonynt yn frwdfrydig wrth sôn amdano'i hun neu ei ffrindiau. Er enghraifft, maent yn siarad am yr hyn y maent yn ei wneud â thoes ac am sut maent yn teimlo bob bore. Mae bron pob plentyn yn defnyddio ymadroddion Cymraeg syml yn hyderus yn ystod amser carped, gan ateb y gofrestr a siarad am y tywydd. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio geiriau Cymraeg ar gyfer lliwiau a rhifau ac yn dweud 'diolch' yn naturiol wrth iddynt chwarae.

Mae bron pob plentyn yn ymuno wrth gyfrif nifer y plant sy'n bresennol. Maent yn dangos mwynhad wrth wrando ac yn ymgymryd â thasgau syml mewn ymateb i gyfarwyddiadau, er enghraifft wrth ddawnsio i gerddoriaeth a myfyrio â thegan bach.

Mae llawer o'r plant yn siarad yn hyderus ag oedolion ac â'u ffrindiau ac yn meddu ar sgiliau iaith datblygedig a geirfa eang. Er enghraifft, maent yn mwynhau cymryd rhan mewn sgyrsiau wrth drafod lle y gallai'r golau traffig oren fod a'r hyn yr hoffent ei fwyta i ginio. Mae llawer o'r plant yn datblygu fel darllenwyr wrth edrych ar lyfrau, gan eu dewis yn annibynnol a thrafod y lluniau a'r straeon yn hapus â'u ffrindiau. Maent yn gwneud hyn yn naturiol ym mhob ardal, er enghraifft wrth ddarllen yn y sied chwarae yn yr awyr agored.

Mae llawer o'r plant yn meithrin eu sgiliau gwneud marciau yn briodol yn yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored. Maent yn defnyddio amrywiaeth o offer ysgrifennu, megis paent, pinnau ysgrifennu a phensiliau i wneud marciau ystyrlon. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ysgrifennu eu henwau'n hyderus ac yn gallu adnabod

seiniau rhai llythrennau yn hawdd. Maent yn mwynhau gweithgareddau gwneud marciau a bydd llawer ohonynt yn ysgrifennu eu henwau heb ofyn iddynt wneud hynny, er enghraifft wrth ddefnyddio'r map ffordd pen bwrdd yn yr awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn llwyddiannus wrth chwarae. Maent yn siarad am gacennau bach a mawr wrth drin toes, rhifau yn eu lluniau a siapiau yn eu hamgylchedd. Mae bron pob plentyn yn adnabod rhifau a siapiau. Er enghraifft, maent yn trafod y tân gwersylla sgwâr ar y carped yn ystod amser byrbryd. Mae llawer o'r plant yn cyfrif yn ddibynadwy hyd at ddeg yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau cyfrif yn frwdfrydig. Llwyddodd rhai o'r plant i adio dau rif at ei gilydd yn naturiol wrth iddynt chwarae â rhifolion a chownteri lliw.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau cydsymud yn briodol, er enghraifft maent yn defnyddio siswrn yn effeithiol i dorri ffrwythau wrth gymysgu hylifau ac yn gosod y caeadau ar wahanol siapiau boteli yn dda. Maent yn defnyddio adnoddau megis ceir, treiciau a phramiau yn hyderus wrth chwarae, sy'n cefnogi eu datblygiad corfforol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau creadigol yn dda. Wrth ddefnyddio toes, mae'r plant yn ei rolio, yn ei wasgu ac yn ei fowldio i greu cacennau y maent yn eu haddurno â gliter a chanhwyllau. Mae llawer o'r plant yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau diddorol i greu lluniau y maent yn siarad amdanynt â brwdfrydedd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio byrddau llunio, gliniaduron, cyfrifiaduron a cheir y gellir eu rheoli i ddatblygu eu sgiliau'n dda.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd buddiol i ddysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill, drwy drafodaethau, straeon a gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn dathlu Diwali a'r Pasg sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant yn dda. Mae bron pob un o'r plant yn hyderus yn eu hamgylchedd. Maent yn defnyddio offerynnau cerdd ac yn mwynhau gwrando ar amrywiaeth o arddulliau cerddorol wrth fwynhau dawnsio a myfyrio.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau effeithiol er mwyn helpu'r ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant ac maent yn diweddaru eu hyfforddiant diogelu bob blwyddyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r feithrinfa ar waith mewn perthynas â hylendid, iechyd a diogelwch yn effeithiol. Maent yn cadw'r plant yn ddiogel drwy gwblhau gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd a thrwy ddilyn gweithdrefnau mewn perthynas â damweiniau, digwyddiadau a rhoi meddyginiaeth. Mae pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig addas. Maent yn cymryd rhan mewn ymarferion rheolaidd ar gyfer gwagio'r adeilad ar y cyd â'r ysgol er mwyn i'r plant wybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae'r ymarferwyr yn

goruchwylio'r plant yn dda ac yn cadw cofnod cywir o'r amseroedd y mae'r plant yn mynychu a phwy sy'n gofalu amdanynt. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn annog y rhieni i ddarparu byrbrydau a chinio iach i'r rhai nad ydynt yn cael cinio ysgol, ac yn cynnig llaeth neu ddŵr i'w yfed. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ar adegau priodol, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu arferion hylendid personol da. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael y cyfle i chwarae yn yr awyr agored am gyfnodau hir fel eu bod yn cael awyr iach ac yn gallu gwneud ymarfer corff.

Mae'r ymarferwyr yn garedig, yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn cyfathrebu â'r plant mewn ffordd gynnes a chyfeillgar, gan greu awyrgylch digyffro ac ymlaciol. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol, gan ddangos parch wrth ryngweithio â'r plant ac â'i gilydd. Maent yn cynnig llawer o ganmoliaeth ac anogaeth ac yn dathlu â'r plant pan fyddant yn cyflawni pethau neu'n dal ati. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd lle mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi sy'n hyrwyddo eu hunan-barch ac yn eu helpu i ddysgu i reoli eu hymddygiad a'r rhyngweithio rhyngddyn nhw ac eraill.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ac yn darparu gweithgareddau a phrofiadau diddorol sy'n hyrwyddo dysgu a datblygiad cyffredinol y plant. Maent yn ymateb i syniadau'r plant ac yn ymuno yn eu chwarae er mwyn eu helpu i ddysgu'n dda, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn gêm chwarae dychmygol a wnaeth helpu'r plant i ddysgu am ddiogelwch ar y ffyrdd. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant ac yn eu hasesu'n dda, ac yn defnyddio’r wybodaeth wrth gynllunio. Maent yn adnabod y plant yn hynod dda. Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'r plant y gallai fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt systemau priodol ar waith i weithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol os bydd angen iddynt wneud hynny.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o sut mae'r plant yn dysgu drwy chwarae ac archwilio. Maent yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau pwrpasol ac ysgogol i'r plant yn yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored, er enghraifft gwneud lluniau mosäig a phaentio ar raddfa fawr. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyffrous ac yn ddiddorol. Maent yn cefnogi'r plant i ddilyn eu diddordebau'n dda. Mae cyfleoedd dysgu yn galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a'u sgiliau cyfathrebu yn dda, megis cyfleoedd ysgrifennu dyddiol a chyfleoedd i fwynhau llyfrau a straeon. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu sgiliau rhifedd effeithiol drwy amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol, megis gwneud tân gwersylla ffug, a chyfrif yn ystod sesiwn fyfyrio.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo sgiliau cyfathrebu a datrys problemau'r plant yn dda. Maent yn annog y plant i holi ac ateb cwestiynau ac yn gwneud sylwadau sy'n annog y plant i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, maent yn trafod eu breuddwydion ar ôl iddynt fod yn ymlacio yn ystod amser myfyrio. Mae'r ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant edrych ar lyfrau. Maent yn darllen straeon â brwdfrydedd a chynhesrwydd, gan alluogi'r plant i feithrin cariad tuag at lyfrau a straeon.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn gall yn ystod gweithgareddau, gan gymell y plant i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, sy'n helpu'r plant i feithrin eu sgiliau meddwl. Maent yn defnyddio dulliau cwestiynu a thrafodaethau effeithiol sy'n galluogi'r plant i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, yn enwedig wrth ddatblygu eu sgiliau creadigol.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol yn llwyddiannus. Maent yn annog y plant i fwynhau'r awyr agored drwy amrywiaeth o brofiadau cyffrous, er enghraifft wrth wneud map awyr agored mawr, sy'n ysgogi trafodaeth am y byd o'u cwmpas wrth iddynt ychwanegu nodweddion cyfarwydd megis goleuadau traffig. Maent yn helpu'r plant i bedlo, rhedeg a phaentio yn yr awyr agored. Mae hyn yn sicrhau y caiff y plant eu herio i ddatblygu eu sgiliau corfforol ac i fwynhau'r byd o'u cwmpas.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod sesiynau. Maent yn canmol y plant ac yn siarad am deimladau gan ddefnyddio geirfa briodol, sy'n annog y plant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn dda. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith wrth iddynt chwarae, er enghraifft wrth enwi lliwiau, neu ddefnyddio rhifau a chyfarchion syml.

Mae'r ymarferwyr yn gyfarwydd â'r Cwricwlwm i Gymru, ac maent yn defnyddio dull cwestiynu effeithiol i herio'r plant wrth iddynt chwarae. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac maent yn gosod disgwyliadau uchel i bawb. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi'r plant yn effeithiol ar wahanol gamau o'u dysgu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio asesiadau rheolaidd i sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd cyffredinol ym mhob maes a dilynir eu diddordebau. Maent yn annog y plant i wneud dewisiadau pwrpasol ynghylch eu chwarae. Mae'r ymarferwyr yn nodi sylwadau defnyddiol ac yn trafod beth mae'r plant wedi'i wneud a'i ddweud wrth chwarae, sy'n ategu'r broses gynllunio yn effeithiol.

Mae'r drefn o ddydd i ddydd yn helpu'r plant i ddysgu, er enghraifft drwy ddysgu am ddiwrnodau'r wythnos, y tywydd ac ysgrifennu eu henwau fel rhan o'u proses gofrestru. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn trefnu gweithgareddau grŵp yn ddigon da i ennyn diddordeb y plant yn llwyr drwy gydol y gweithgaredd.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu sgiliau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol drwy ddysgu am wyliau megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali a gwrando ar gerddoriaeth o wahanol ddiwylliannau. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni yn rheolaidd, sy'n sicrhau bod y rhieni yn deall yr hyn y mae eu plant wedi bod yn dysgu amdano yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

## Yr Amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae systemau diogelwch effeithiol ar waith, sy'n cynnwys asesiadau risg ysgrifenedig a gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd. Mae'r rhain yn lleihau neu'n cael gwared ar beryglon posibl ac yn helpu i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn rheoli mynediad y plant i'r lleoliad yn dda ac mae ymwelwyr yn dod drwy'r brif ysgol er mwyn cyrraedd y lleoliad. Mae'r

lleoliad yn lân ac mewn cyflwr da. Er enghraifft, mae'r lleoliad mewn ysgol, sy'n cynnal yr holl wiriadau diogelwch priodol, gan gynnwys profion tân a thrydanol. Mae'r ymarferwyr yn dilyn arferion effeithiol ar gyfer glanhau adnoddau a chyfarpar. Mae toiledau a chyfleusterau newid addas sy'n galluogi'r ymarferwyr i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r ystafell chwarae yn groesawgar ac yn olau gan ddarparu digon o le i'r plant symud o gwmpas a chwarae yn ogystal ag ymgynnull fel grŵp, a chornel dawel gyfforddus os bydd ei hangen ar y plant. Mae'r waliau wedi'u haddurno ag arddangosiadau i ddathlu gwaith celf y plant, ac maent wedi eu labelu eu hunain. Mae hyn yn helpu'r plant i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a balchder yn yr hyn y maent wedi ei wneud.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod llwybr uniongyrchol i'r plant gyrraedd yr ardal chwarae awyr agored, sef iard fawr â llawer o adnoddau. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i chwarae a dysgu ym mhob maes datblygu, ac mae digon o le iddynt redeg o gwmpas ac ymgymryd ag ymarfer corff. Gall y plant hefyd ddefnyddio tir ehangach yr ysgol a Gardd y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn darparu dodrefn, cyfarpar ac adnoddau o ansawdd da i'r plant, sy'n diwallu eu hanghenion yn dda. Mae'r ymarferwyr yn annog dysgu gweithredol drwy amrywiaeth eang o adnoddau sy'n annog y plant i arbrofi ac i ddefnyddio eu dychymyg. Mae'r defnydd datblygol o adnoddau naturiol a phenagored yn ysgogi diddordeb y plant ac mae amrywiaeth addas o adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r ymarferwyr yn storio'r adnoddau yn ddiogel a gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol er mwyn dewis beth yr hoffent chwarae ag ef.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn angerddol am waith y lleoliad. Maent yn gweithio'n effeithiol i greu ethos cryf o fod yn gymuned ddysgu hapus a gofalgar. Ceir ymrwymiad effeithiol i gydweithredu, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau i blant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn trafod eu cynlluniau ar gyfer profiadau dysgu a chwarae yn rheolaidd ac yn rhannu'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau yn effeithiol. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd er mwyn helpu'r plant i ddysgu a datblygu'n llwyddiannus. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gadarn a Datganiad o Ddiben clir, sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad. Mae ganddynt amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu hymdrechion i redeg y lleoliad yn ddidrafferth.

Mae gan yr arweinwyr drefniadau effeithiol ar waith i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ac i gynllunio ar gyfer gwella. Mae pob un o'r ymarferwyr yn ymrwymedig i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau i blant ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cydnabod yr hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Er enghraifft, maent wedi nodi strategaethau i wella'r trefniadau ar gyfer defnyddio Cymraeg achlysurol ym mhob rhan o'r lleoliad ac wedi rhoi'r strategaethau hynny ar waith.

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r ymarferwyr a'r adnoddau i gefnogi llesiant, chwarae a dysgu'r plant yn dda. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel addas. Mae'r systemau arfarnu yn annog cyfleoedd i fyfyrio ac yn nodi meysydd i'w gwella yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr yn helpu'r ymarferwyr i wella eu sgiliau'n barhaus ac i fwrw ati i astudio ar gyfer eu cymwysterau drwy amrywiaeth o gyfleoedd datblygiad proffesiynol defnyddiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad, er enghraifft drwy wella hyder yr ymarferwyr wrth ddarparu cyfleoedd dysgu cyffrous yn unol â'r cwricwlwm. Mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ac mae awyrgylch cadarnhaol o waith tîm ym mhob rhan o'r lleoliad, sy'n cefnogi'r plant yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn hysbysu'r rhieni a'r gofalwyr am yr hyn y mae eu plant wedi bod yn dysgu amdano a pha mor dda maent yn datblygu drwy ap cyfathrebu digidol, diweddariadau anffurfiol rheolaidd a systemau adrodd.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol i wella'r ddarpariaeth a'r canlyniadau i blant. Maent yn gweithredu'n gyflym ar unrhyw gyngor a hyfforddiant a gynigir, sy'n sicrhau bod y lleoliad yn cynnal ei drefniadau gofalu a datblygu i'r ymarferwyr a'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr a'r ymarferwyr bob amser yn manteisio ar gyfleoedd yn y gymuned leol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd ehangach. Mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r ysgol, sy'n helpu'r plant i symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg yn dda.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 26/01/2024